UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

www.ucac.cymru

Lynn Neagle AS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg,
Llywodraeth Cymru.

*Trwy E Bost*

26ain o Ebrill, 2024.

Annwyl Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg,

Carwn yn y lle cyntaf eich llongyfarch ar dderbyn y rôl o Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a datgan bod UCAC yn edrych ymlaen yn fawr at gyd-weithio gyda chi er mwyn sicrhau'r gyfundrefn addysg orau posibl i Gymru a'r amodau gwaith a chydnabyddiaeth orau posibl i'n haelodau.

Cysylltwn yng ngoleuni'r ffaith ei fod wedi yn wythnos heriol dros ben i'r byd addysg yng Nghymru , gyda digwyddiad enbyd ddydd Mercher sydd wedi ein hysgwyd oll.

Mae'n siŵr y byddwch yn cytuno bod staff yr Ysgol wedi ymddwyn mewn modd gwbl ganmoliaethus, gan ymateb i'r sefyllfa yn ddewr ac yn broffesiynol. Byddwn yn sicrhau bod y gefnogaeth amlwg mae'n haelodau eisoes yn ei dderbyn gan yr awdurdodau yn parhau, wrth gwrs.

Rydym yn ffodus iawn mai prin yw digwyddiadau o'r fath yng Nghymru a mawr obeithiwn na welwn ddigwyddiad o'r fath eto.

Fodd bynnag, byddwch yn deall y bydd pryder am y sefyllfa yn aros am gyfnod estynedig, nid yn unig yn Ysgol Dyffryn Aman, ond trwy Gymru benbaladr.

Pryder sydd yn deillio, nid yn unig o'r digwyddiadau erchyll hyn, ond hefyd fod pob ystadegyn yn dangos bod trais ar gynnydd yn ein hysgolion. Bydd y pryder yn mynd law yn llaw â'r ffaith bod dirywiad amlwg wedi bod o ran disgyblaeth yn ein hysgolion dros y blynyddoedd diwethaf.

Fel athro ers 20 mlynedd, rwyf wedi delio gyda digwyddiadau o drais rhwng disgyblion sawl gwaith. Mae rhai disgyblion yn troi at ymateb treisgar i anghytuno/ffraeo yn frawychus o gyflym. Ar ben hyn, mae nifer ddigwyddiadau yn cael eu ffilmio ar ffonau symudol ac yn cael eu rhannu'n ehangach ar gyfryngau cymdeithasol, gan wneud yr 'angen' i ymateb yn dreisgar er mwyn peidio â cholli parch cyd-ddisgyblion yn waeth fyth. Nid wyf wedi dod ar draws unrhyw achosion o drais yn erbyn aelod o

Prif Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU | 01970 639950 | ucac@ucac.cymru | www.ucac.cymru
facebook.com/AthrawonCymru twitter.com/AthrawonCymru

staff yn fy mhrofiad personol - ac rwy'n ddiolchgar iawn am hynny - ond fy nheimlad yw mai dim ond mater o amser yw hyn.

Byddai'n braf pe bai modd i ni ddweud nad yw'r sefyllfa'n gyffredin i bob ysgol, ym mhob awdurdod, ond yn anffodus, ni allwn wneud hynny. Mae disgyblaeth wedi bod yn thema gyson wrth i mi drafod ag aelodau mewn ysgolion ac yn ein cyfarfodydd cyson fel undeb. Mae hefyd yn thema gyffredin mewn cyfarfodydd rhyng-undebol ym mhob awdurdod. Deallaf fod y Llywodraeth wedi dechrau rhoi sylw i'r mater, ond yn amlwg mae angen dwysau'r trafodaethau erbyn hyn.

Deallaf nad yw diffyg disgyblaeth a thrais o reidrwydd yn mynd law yn llaw, ond yn anffodus, mae'n amlwg o'n trafodaethau bod trais yn gyffredinol ar gynnydd yn ogystal.

Bydd gwersi amlwg i'w dysgu o'r digwyddiad yn Rhydaman, a fyddwn ni ddim yn awyddus i ymateb yn fyrbwyll i'r sefyllfa, fodd bynnag, mae'n amlwg bod angen i ni fynd i'r afael o ddifri â'r heriau amlwg sydd yn wynebu ein hathrawon a'n pobl ifanc.

Deallwn y byddwch yn ystyried y sefyllfa'n ddwys, ond gofynnwn i chi sicrhau eich bod yn galw rhanddeiliaid ynghyd er mwyn i ni fedru ymateb i'r heriau yn y modd mwyaf grymus posibl pan fydd yn briodol i wneud hynny.

Gallaf eich gwarantu bod UCAC yn gwbl ymrwymedig i gydweithio gyda chi, eich Llywodraeth a'r Awdurdodau Lleol i sicrhau bod ein haelodau mor ddiogel â phosibl wrth iddynt ymroi, yn unol â'u harfer i ysgwyddo eu dyletswyddau proffesiynol.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych yn fuan.

Yn ddiffuant,



Geraint Glyn Phillips,
Llywydd Cenedlaethol UCAC.